Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

9 Mawrth 2021

Annwyl Dafydd,

**Arian ychwanegol Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant**

Yn dilyn cyhoeddi Cyllideb y DU, hoffwn i, fel chwithau groesawu'r newyddion y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r cenhedloedd datganoledig yng ngoleuni buddsoddiad o £300 miliwn Llywodraeth y DU yn y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn Lloegr.

A allech gadarnhau beth yw cyfran Cymru o'r cyllid hwn, p'un a ydych yn fodlon bod hwn yn cynrychioli cyllid canlyniadol Barnett yn llawn, ac a fydd cyfanswm y swm a ddyrennir yn cael ei ymrwymo i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yng Nghymru?

Gwyddom fod y sector hwn wedi colli incwm yn enbyd ers dechrau'r pandemig bron i flwyddyn yn ôl. O ystyried y gallai gymryd rhai misoedd eto i ailddechrau gweithgareddau'n llawn, hoffwn gael eich sicrwydd y bydd cyfanswm yr arian a ddyrennir i Gymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector diwylliant yn ddi-oed.

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol i sicrhau nad yw ein sefydliadau celfyddydol yn gorfod cau eu drysau am byth neu ddiswyddo aelodau staff gwerthfawr.

Rydych wedi egluro wrth y Pwyllgor yn y gorffennol nad yw'r cyllid a ddyrannwyd i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y sector. A

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

ydych felly'n cynllunio i ddyrannu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, yn ychwanegol at y cyllid canlyniadol Barnett diweddaraf?

Wrth gloi, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch Adran am bopeth yr ydych wedi'i wneud drwy gydol y pandemig hwn. Rwy'n gwybod y byddwch yn cytuno y dylid cyfeirio'r holl arian sydd ar gael i'r sector cyn gynted ag sy'n bosibl, a'i ddosbarthu i'r sefydliadau a'r unigolion hynny y mae eu bywoliaeth mewn perygl.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Bethan Sayed

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu